Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

## Cynnwys


1 Cydnabod Dysgu Blaenorol ... 1
1.1 Cefndir ... 1
1.2 Rôl yn y Fframweithiau Modwlar ... 1
1.3 Rheoliadau Hawlio Credydau ... 2
1.4 Diffiniadau ... 3
1.5 Credyd Cyffredinol ... 4
1.6 Credyd Penodol ... 4
1.7 Trosglwyddo Credydau AU ... 5
1.8 Y Weithdrefn ar gyfer Cydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol ... 5
1.9 Cyfrifoldebau Unigol am Hawliadau RPL yn Seiliedig ar Ddysgu Tystysgrifedig ... 6
(1) Yr Ymgeisydd neu'r Myfyriwr: ... 6
(2) Y Rheolwr Rhaglen ... 6
1.10 Achredu Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol Safonol ... 6
1.11 Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau ... 7
1.11.1 Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau ar gyfer Credyd Penodol ... 7
1.11.2 Rôl y Mentor Academaidd ... 8
1.11.3 Dysgu drwy Brofiadau yn arwain at Gredyd Cyffredinol ... 8
1.12 Meysydd Dysgu ... 9
1.13 Deilliannau Dysgu ... 9
1.14 Asesu Hawliadau ar gyfer Dysgu Drwy Brofiadau ar gyfer Credyd Cyffredinol dros 40 o Gredydau ... 10
1.15 Rôl yr Ymgynghorydd Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL) ... 14
1.16 Bwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau (RPEL) ac Achredu ... 14
1.17 Hawliadau twyllodrus ... 16
1.18 Apeliadau ... 16
1.19 Goblygiadau Adnoddau ... 17
1.20 Asesu Effaith ... 17
1.21 Rheoli fersiynau'r ddogfen ... 18


Mae'r Polisi hwn a'i atodiadau/ffurflenni wedi eu cyhoeddi ar dudalen we y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, o dan y pennawd Pennod 11, oni nodir yn wahanol.

# 1 Cydnabod Dysgu Blaenorol

## 1.1 Cefndir

Efallai bod rhai ymgeiswyr neu fyfyrwyr eisoes wedi caffael credydau yn seiliedig ar astudiaeth ffurfiol ar lefel Addysg Uwch; yn yr achos hwn, efallai y byddant yn hawlio Cydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol fel y diffinnir isod yn 1.4, ac y manylir arno yn 1.8. Efallai bod pobl eraill wedi caffael gwybodaeth a sgiliau tebyg yn ystod eu bywyd gwaith, boed wedi'i dalu neu'n wirfoddol, ac yn yr achosion hyn mae'n bosibl y gallant hawlio Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau, a ddiffinnir hefyd yn 1.4. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen iddynt gwblhau gweithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau (RPEL) fel y manylir yn 1.11. Mae'r Weithdrefn Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau yn galluogi'r ymgeiswyr neu fyfyrwyr i hawlio credyd ar gyfer y dysgu hynny y gellir ei ddefnyddio i gael mynediad i raglen, gael eu heithrio o rannau o'r rhaglen honno, neu statws uwch tuag at ddyfarniad academaidd. Mae hyn yn berthnasol i'r holl Raglenni Astudio sy'n arwain at ddyfarniad Prifysgol. Rhaid gwneud unrhyw gais am statws uwch mewn perthynas â Graddau Ymchwil yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil.

Lle bo gofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB) yn gosod cyfyngiadau penodol ar RPCL/RPEL, nid yw'r polisi hwn yn berthnasol. Ar gyfer y cyfryw raglenni, dylai bod gwybodaeth ar RPCL/RPEL yn cael ei darparu yn y Ddogfen Rhaglen Derfynol. Yn debyg, efallai y caiff eithriadau arbennig eu cymeradwyo gan PSRB neu gorff cenedlaethol, a fyddai'n cael blaenoriaeth ar y polisi hwn.

## 1.2 Rôl yn y Fframweithiau Modwlar

Gellir derbyn ymgeisydd â chredyd blaenorol neu statws uwch i bwynt priodol yn y rhaglen. Mae'r tabl isod yn dangos uchafswm nifer y credydau y gellir eu trosglwyddo trwy'r broses Cydnabod Dysgu Blaenorol ar gyfer pob cymhwyster. Mae'n dangos hefyd uchafswm nifer y credydau a allai gael eu hystyried i'w trosglwyddo o lefel is sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad fel arfer. Mae'r tabl hwn yn gyson â'r canllawiau a osodir yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, 2012.

| **Cymhwyster** | **Uchafswm trosglwyddiad** | **Lefel y credydau ar gyfer y trosglwyddiad uchaf posibl** | **Uchafswm y credydau o lefel is a ymgorfforir yn y trosglwyddiad** | **Credydau sy'n weddill** |
|---|---|---|---|---|
| Tystysgrif Genedlaethol Uwch | 80 credyd | Lefel 4 | 30 credyd lefel 3 | Lefel 5 |
| Tystysgrif AU | 80 credyd | Lefel 4 | 30 credyd lefel 3 | Lefel 4 |
| Diploma Cenedlaethol Uwch | 160 credyd | 120 Lefel 4, 40 Lefel 5 | 30 credyd lefel 3 | Lefel 5 |
| Gradd Sylfaen | 160 credyd | 120 Lefel 4, 40 Lefel 5 | 30 credyd lefel 3 | Lefel 5 |
| Diploma AU | 160 credyd | 120 Lefel 4, 40 Lefel 5 | 30 credyd lefel 3 | Lefel 5 |
| Gradd Anrhydedd | 240 credyd | 120 Lefel 4, 120 Lefel 5 | 30 credyd lefel 3 | Lefel 6 |
| Tystysgrif Raddedig | 40 credyd | Lefel 6 | 20 credyd lefel 5 | Lefel 6 |
| Diploma Graddedig | 80 credyd | Lefel 6 | 30 credyd lefel 5 | Lefel 6 |
| Gradd Meistr | 240 credyd | Lefelau 4-5 | 30 credyd lefel 3 | Lefel 6 a 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Integredig | | | | |
| Tystysgrif Ôl-raddedig | 40 credyd | Lefel 7 | 20 credyd lefel 6 | Lefel 7 |
| Diploma Ôl-raddedig | 80 credyd | Lefel 7 | 30 credyd lefel 6 | Lefel 7 |
| Gradd Meistr | 120 credyd | Lefel 7 | 30 credyd lefel 6 | Lefel 7 |
| Meistr mewn Pensaernïaeth (MArch) | 120 credyd | 60 Lefel 6, 60 Lefel 7 | Amherthnasol | Lefel 7 |
| Meistr yn y Celfyddydau Cain (MFA) | 120 credyd | Lefel 7 | 30 credyd lefel 6 | Lefel 7 |
| Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (PCE) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol | 80 credyd | 60 Lefel 5, 20 Lefel 6 | Amherthnasol | Lefel 6 |
| Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg (ProfGCE) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol | 80 credyd | Lefel 6 | Amherthnasol | Lefel 6 |
| Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol | 80 credyd | 60 Lefel 6, 20 Lefel 7 | Amherthnasol | Lefel 7 |
| Doethuriaeth Broffesiynol | 180 credyd | Lefel 7 | 30 credyd lefel 6 | Lefel 8 |

## 1.3 Rheoliadau Hawlio Credydau

Dylai'r uchafswm hawliad am gredydau y gellir ei wneud ar sail dysgu tystysgrifedig neu drwy brofiadau fod yn gyson â'r tabl a ddengys yn adran 1.2 ac ar y mwyaf yn ddwy ran o dair o'r credydau ar gyfer y dyfarniad y ceisir credydau amdano. Er enghraifft, ar lefel israddedig, gallai hyn alluogi myfyriwr i symud ymlaen yn uniongyrchol i lefel 6 ar ôl cwblhau hawliad dysgu tystysgrifedig neu ddysgu drwy brofiadau gwerth 240 credyd. Fodd bynnag, ni ellid defnyddio'r credydau hyn tuag at ddyfarniad Diploma Addysg Uwch yn ei rinwedd ei hun.

Os bydd myfyriwr yn hawlio statws uwch ar sail dysgu drwy brofiadau sy'n cynnwys credydau ar ddwy lefel wahanol neu'n fwy, byddai'r statws uwch yn cael ei ddefnyddio i gwblhau'r gofyniad ar y lefel isaf (ac o bosibl rhywfaint o'r gofyniad ar lefel uwch) yn hytrach na galluogi rhywfaint o statws uwch ar lefel uwch heb gwblhau'r lefel isaf. Er enghraifft, os bydd myfyriwr yn cwblhau modwl Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL) yn llwyddiannus (gweler adran 1.9) a hefyd yn hawlio statws uwch o 80 credyd ar Lefel 4 a 65 credyd ar Lefel 5, gallai'r myfyriwr gael ei ddyfarnu ar statws uwch o 120 credyd ar Lefel 4 a 25 credyd ar Lefel 5, ynghyd ag 20 credyd ar Lefel 5 ar gyfer modwl RAL.

Yn aml, bydd hawliadau'n cynnwys cymysgedd o ddysgu drwy brofiadau a dysgu tystysgrifedig ar wahanol lefelau. Er enghraifft, gallai myfyriwr sydd wedi cwblhau 40 credyd tystysgrifedig yn llwyddiannus ar Lefel 4, ac sydd hefyd yn cwblhau modwl RAL yn llwyddiannus gan hawlio statws uwch o 80 credyd ar Lefel 4 a 65 credyd ar Lefel 5, gael statws uwch o 120 credyd wedi'i ddyfarnu ar Lefel 4 a 65 credyd ar Lefel 5, ynghyd ag 20 credyd ar Lefel 5 ar gyfer modwl RAL.

Bydd credydau lefel uwch yn cael eu cymryd i gyflenwi diffygion mewn credydau lefel is er mwyn cyflenwi gofyniad credyd ar lefel uwch. Er enghraifft, bydd ymgeisydd gyda 100 o gredydau ar Lefel 4 a 140 o gredydau ar Lefel 5 yn cael eu credydu gyda 240 o gredydau ar Lefelau 4 a 5.

Gellir caniatáu RPL dim ond os nad yw'n arwain at 'gyfrif dwbl'. Golyga hyn na ellir caniatáu RPL am fodylau sydd â'r un cynnwys neu gynnwys sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol. Golyga hyn hefyd na all dysgu a gredydir sydd wedi cyfrannu'n barod at ddyfarnu un cymhwyster gael ei ddefnyddio i gael eich eithrio ar sail RPL mewn cymhwyster arall ar yr un lefel neu'n is (e.e. ni all modylau â chredyd a fu'n rhan o raglen astudio a arweiniodd at ddyfarniad MA gael eu defnyddio wedyn i gael eich eithrio rhag modylau ar MA arall). Fodd bynnag, yn achos dyfarniadau canolradd, byddai hyn yn cael ei ganiatáu (e.e. gellid defnyddio modylau a arweiniodd at Dystysgrif Ôl-raddedig i gael eich eithrio rhag modylau ar MA). Os nad yw ymgeisydd yn sicr p'un ai a fyddai eu hawliad yn arwain at gyfrif dwbl, dylent ymgynghori â'r Ddisgyblaeth Academaidd derbyn ar eu rhaglen astudio am gyngor. Os bydd myfyriwr, sydd wedi defnyddio dyfarniad a enillwyd o'r blaen yn drosglwyddiad credyd, wedyn yn tynnu'n ôl o'r rhaglen y cafodd y dyfarniad ei gynnwys ynddo, yna bydd y dyfarniad/credyd gwreiddiol yn dal i fod. Er enghraifft, os bydd myfyriwr sydd wedi defnyddio'r broses RPL i drosglwyddo Gradd Sylfaen i raglen BA Anrhydedd, yna'n tynnu'n ôl o'r rhaglen honno, yna bydd dyfarniad Gradd Sylfaen y myfyriwr yn cael ei gynnal. Nid oes rhaid fforffedu cymwysterau proffesiynol na galwedigaethol.

Rhaid i'r holl gredyd a ddyfernir am ddysgu tystysgrifedig blaenorol a dysgu blaenorol drwy brofiadau gael ei nodi ar y rhestr marciau a gyflwynir i'r Bwrdd Arholi perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau bod y credyd yn cael ei gynnwys yn ffurfiol ar gofnod y myfyriwr, a bod y Bwrdd yn ymwybodol o'r ymgeiswyr sy'n cael dyfarniad credyd academaidd drwy'r mecanwaith RPL.

Er nad oes dyddiad terfyn safonol ar gyfer cydnabod dysgu tystysgrifedig, bydd dyfarniad yn cael ei wneud ynghylch pa mor briodol a fyddai cydnabod credyd yng nghyd-destun y maes pwnc dan sylw ac, os dyfernir bod oes y dysgu tystysgrifedig wedi darfod, efallai y bydd angen darparu tystiolaeth bod y dysgu wedi'i ddiweddaru (er enghraifft os yw'r myfyriwr wedi bod yn gweithio'n broffesiynol, ac adeiladu ar y dysgu yn y cyfamser) cyn caniatáu cydnabod y credyd.

## 1.4 Diffiniadau

Diffinnir Cydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol (RPCL) fel gwerthuso dysgu a gafwyd sydd wedi'i asesu a'i ardystio'n flaenorol. Gallai hyn fod mewn sefydliad gwahanol, neu ar Raglen Astudio wahanol i'r rhaglen y mae'r myfyriwr yn dymuno cofrestru arni ar hyn o bryd, neu gan ardystiad proffesiynol. Dim ond ceisiadau sy'n berthnasol i'r rhaglen astudio arfaethedig neu sy'n cyfateb â hi fydd yn cael eu symud ymlaen.

RPCL Safonol yw lle bo'r broses cydnabod dysgu tystysgrifedig blaenorol, fel y disgrifiwyd uchod, yn cael eu hwyluso ar gyfer nifer fawr o ymgeiswyr (gweler adran 1.10).

Diffinnir Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau (RPEL) fel y broses y caiff dysgu drwy brofiadau blaenorol ei werthuso drwyddi ac y dyfernir credydau trwyddi. Gellir disgrifio dysgu drwy brofiadau fel y wybodaeth a'r sgiliau a gafwyd drwy brofiadau bywyd, profiad gwaith ac astudiaeth nad ydynt yn cael eu cadarnhau'n ffurfiol trwy unrhyw ardystiad addysgol neu broffesiynol. Gallai hefyd gynnwys dysgu sy'n deillio o ddatblygiad staff a ddarperir gan unrhyw sefydliad, sydd heb ei arholi mewn unrhyw un o'r systemau arholi cyhoeddus. Y cyrhaeddiad dysgu, neu ganlyniadau'r dysgu hwnnw, ac nid dim ond profiad y gweithgareddau ar eu pen eu hunain y gellir eu hystyried am gydnabyddiaeth.

Defnyddir y term Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) fel acronym generig i gwmpasu'r gydnabyddiaeth o ddysgu tystysgrifedig a thrwy brofiadau.

Caiff credyd ei drin yn gyffredinol neu'n benodol. Credyd cyffredinol yw cyfanswm gwerth y credyd sydd ynghlwm â chyfnod dysgu neu gymhwyster; e.e. wedi'i ddefnyddio i gael mynediad i raglen neu ar gyfer statws uwch; credyd penodol yw swm y credyd a allai gael ei ddefnyddio tuag at gymhwyster arall.

Gall ymgeisydd neu fyfyriwr wneud cais am gredyd cyffredinol ac eithriadau penodol ar lefelau astudio uwch a/neu is. Caiff lefelau eu diffinio ym Mhennod 6 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

Bydd trawsgrifiadau myfyrwyr yn nodi'r glir bod credyd wedi'i ddyfarnu ar sail dysgu blaenorol.

## 1.5 Credyd Cyffredinol

Rhaid i'r penderfyniadau mewn perthynas â chydnabod dysgu blaenorol fod yn seiliedig ar gywerthedd. Rhaid iddi fod yn amlwg bod y dysgu tystysgrifedig blaenorol neu drwy brofiadau yn gyfwerth â'r dysgu a allai fod wedi'i gyflawni trwy ddilyn y modwl(modylau) a ddilyswyd y ceisir eithrio/trosglwyddo credyd.

Gallai ymgeisydd neu fyfyriwr hawlio credyd cyffredinol i gydnabod dysgu blaenorol yn unol â'r tariff credydau academaidd a gymeradwyir mewn sefydliadau eraill. Fodd bynnag, efallai nad yw swm y credydau cyffredinol a gydnabyddir, sy'n gysylltiedig â'r cydrannau dysgu a gyflawnir mewn mannau eraill, yn cyfateb yn union i swm y credydau penodol a ddyfernir gan y Brifysgol tuag at gyfanswm nifer y credydau y mae eu hangen ar gyfer y dyfarniad a enwir y mae'r myfyriwr yn dymuno cofrestru amdano.

## 1.6 Credyd Penodol

Credydau penodol yw credydau a ddyfernir tuag at gyfanswm nifer y credydau angenrheidiol ar gyfer rhaglen astudio a enwir, a allai fod yn llai na swm y credydau cyffredinol y gallai myfyriwr feddu arnynt.

Dyfernir credydau penodol ar gyfer dysgu sy'n cyfateb yn agos i ddeilliannau dysgu modwl penodol. Gallai hyn fod o ganlyniad i ddysgu tystysgrifedig neu drwy brofiadau.

Ym mhob achos, rhaid i'r dysgu blaenorol y dyfernir credydau penodol amdano gyfrif fel rhaglen gydlynol o astudio wrth ei ystyried ar y cyd â'r credyd y disgwylir ei ennill ar gyfer modylau a astudir o fewn rhaglen sy'n arwain at ddyfarniad.

Lle dyfernir credydau penodol, bydd y myfyriwr, yn ogystal ag ennill credydau, yn cael ei eithrio o'r modwl hwnnw: mae **eithrio'n** arwydd yr ystyrir bod y myfyriwr wedi cwblhau'r modwl at ddibenion rhaganghenraid ac/neu gyd-anghenraid ac/neu ofynion craidd y modwl. Rhaid cofnodi'r holl gredydau hynny i'w cynnwys ar drawsgrifiad y myfyriwr.

Dim ond ar gyfer modylau cyfan sydd wedi'u cwblhau y gellir defnyddio credyd, ni ellir ystyried rhai sydd wedi'u cwblhau'n rhannol. Yn ogystal, dyfernir RPCL ar gyfer modylau cyfan yn unig, nid yw'r Brifysgol yn caniatáu eithrio o ran o fodwl.

## 1.7 Trosglwyddo Credydau AU

Mae'n bosibl i fyfyrwyr ennill credydau o fodylau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ar lefel AU mewn sefydliad gwahanol. Fodd bynnag, fel rheol, ni ellir dyfarnu credydau ar gyfer dysgu blaenorol lle mae'r myfyriwr eisoes wedi caffael dyfarniad academaidd wedi'i enwi ond gallai hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer mynediad uniongyrchol i'r lefel briodol.

Ni fydd y marciau a ddyfernir ar gyfer y credydau a drosglwyddir trwy'r broses RPCL yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r marc cyfartalog cyffredinol terfynol a ddefnyddir i benderfynu ar y dosbarthiad gradd. Caiff y rheoliadau ar gyfer cyfrifo marc cyfartalog cyffredinol terfynol dyfarniad, lle trosglwyddwyd credydau, eu hamlinellu yn yr adrannau perthnasol ym Mhennod 6 ar gyfer pob gradd.

## 1.8 Y Weithdrefn ar gyfer Cydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol

Ac eithrio rhaglenni partneriaeth cydweithredol, bydd y Rheolwyr Rhaglen yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau RPCL ar gyfer eu Rhaglenni Astudio a bydd y Rheolwr Derbyn yn cymeradwyo hyn drwy wirio bod y broses gywir wedi'i dilyn. Caiff ceisiadau RPCL ar gyfer rhaglenni a gyflwynir mewn sefydliadau partner cydweithredol, eu hystyried yn y lle cyntaf gan y Rheolwr Rhaglen perthnasol a'u cymeradwyo gan y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol (CPO). Fel rheol, gall ymgeiswyr/myfyrwyr wneud un cais RPCL pan fyddant yn gwneud cais/cofrestru ar Raglen Astudio yn y lle cyntaf.

Rhaid i'r ymgeisydd/myfyriwr ddarparu gwybodaeth am eu dysgu tystysgrifedig ar Atodiad PL3a Ffurflen Gais am RPCL (sydd ar gael ar y dudalen we Cyngor i Ymgeiswyr). Dylid defnyddio Atodiad PL3c (Ffurflen Uwchraddio RPCL) (sydd ar gael trwy'r fewnrwyd) i ymgeiswyr sy'n dymuno cael cydnabyddiaeth am gredydau PCYDDS (ac eithrio sefydliadau partner) ar gyfer y flwyddyn olynol. Dylid defnyddio Atodiad PL3d (sydd ar gael ar dudalen we y Llawlyfr Ansawdd Academaidd) ar gyfer ymgeiswyr/myfyrwyr mewn sefydliadau partner cydweithredol. Dylid gofyn am ffurflenni ac arweiniad ynglŷn â'u cwblhau gan y Tîm Derbyn, neu'r Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol fel y bo'n briodol. Ym mhob achos, rhaid darparu prawf dogfennol fod y cymhwyster, neu ran ohono, wedi'i gaffael. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd/myfyriwr yw darparu'r ddogfennaeth hon.

Rhaid i geisiadau ar gyfer pob rhaglen, ar wahân i'r rhai sy'n ffurfio rhan o'r Fframwaith Arfer Proffesiynol:

- fel rheol gael eu prosesu cyn i ymgeisydd gofrestru yn y lle cyntaf, yn cynnwys yn achos mynediad uniongyrchol i ail neu drydedd flwyddyn gradd gychwynnol. Fel arfer ni chaniateir ceisiadau ôl-weithredol.
- gynnwys trawsgrifiad ar gyfer y dysgu tystysgrifedig blaenorol.
- cael eu cyflwyno ar yr un ffurflen. Fel rheol, ni chaniateir cydnabyddiaeth bellach yn achos credydau y gwnaed dyfarniad amdanynt eisoes.

Lle bo'n briodol, rhaid dynodi'n glir gywerthedd y dysgu blaenorol i ganlyniadau dysgu'r modylau y ceisir credydau amdanynt (ar gyfer credyd penodol).

Rhaid i'r wybodaeth a gynhwysir mewn cais gynnwys:

- Y Rhaglen Astudio y gwneir cais am gredydau tuag ati.
- Y sefydliad neu gorff proffesiynol lle cynhaliwyd y dysgu blaenorol.

- Dyddiadau a pharhad y cyfnod astudio blaenorol.
- Modd astudio.
- Manylion am feysydd llafur, asesiadau a pha gydrannau o'r dyfarniad a gwblhawyd yn llwyddiannus.
- Manylion y credydau a ddyfarnwyd a'r tariff a ddefnyddiwyd gan y sefydliad dyfarnu.
- Trawsgrifiad o'r marciau a ddyfarnwyd ar gyfer cydrannau'r dyfarniad a gwblhawyd yn llwyddiannus yn y sefydliad dyfarnu.

## 1.9 Cyfrifoldebau Unigol am Hawliadau RPL yn Seiliedig ar Ddysgu Tystysgrifedig

Amlinella'r rhan hon gyfrifoldebau pob parti mewn perthynas â chydnabod dysgu tystysgrifedig blaenorol fel rhan o unrhyw raglen arall. Gellir dod o hyd i fanylion llawn y cyfrifoldebau mewn perthynas â chydnabod dysgu tystysgrifedig blaenorol sy'n ffurfio rhan o'r Fframwaith Arfer Proffesiynol yn y Llawlyfr Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL).

### (1) Yr Ymgeisydd neu'r Myfyriwr:

(i) Bydd yr ymgeisydd neu'r myfyriwr yn gyfrifol am gyflwyno'u hawliad, gyda thystiolaeth ategol i'r Rheolwr Rhaglen erbyn y dyddiad a osodwyd gan y Rheolwr Rhaglen, yn nodi nad yw ceisiadau ôl-weithredol fel arfer yn cael eu caniatáu.

(ii) Yn gyfrifol am unrhyw ddiwygiadau i'w cyflwyniad y mae Cyfarwyddwr y Rhaglen yn gofyn amdanynt.

### (2) Y Rheolwr Rhaglen

(i) Bydd y Rheolwr Rhaglen yn gyfrifol am bob derbyniad i'r rhaglen ac am weinyddu pob cais Cydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol [DS Lle mae Tiwtor Derbyn mewn lle, yna'r Tiwtor Derbyn fydd yn gyfrifol am dderbyniadau].

(ii) Fel rheol yn aelod o'r staff academaidd sy'n addysgu ar y rhaglen y mae'r myfyriwr yn dymuno cofrestru amdani.

(iii) Yn gwerthuso dysgu tystysgrifedig blaenorol y myfyriwr ac yn penderfynu a allai dysgu'r myfyriwr gael ei achredu o ran cywerthedd i'r modwl/modylau y ceisir credydau amdano. Yn achos y sefydliadau partner, bydd y staff partner yn gwerthuso'r hawliad ac yn gwneud argymhelliad am gymeradwyaeth gan y CPO.

(iv) Ac eithrio'r rheiny sydd mewn sefydliadau partner cydweithredol, yn rhoi gwybod am bob penderfyniad ynghylch RPCL i'r Tîm Derbyn a fydd wedyn yn ei anfon ymlaen i'w brosesu gan Wasanaethau'r Gofrestrfa. Ar gyfer sefydliadau partner cydweithredol, bydd y CPO yn rhoi gwybod am benderfyniadau RPCL i'r Gofrestrfa.

## 1.10 Achredu Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol Safonol

Cydnabod dysgu tystysgrifedig blaenorol safonol yw lle caiff y broses o Gydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol (RPCL) ei hwyluso ar gyfer niferoedd mawr o ymgeiswyr mewn perthynas â dysgu tystysgrifedig (cymwysterau fel BTEC, HND, Tystysgrifau/Diplomâu Ôl-raddedig neu'r rhai a gydnabyddir gan NARIC). Mae hyn yn osgoi'r broses o geisiadau RPCL unigol amryfal lle mae dysgu tystysgrifedig sy'n gyfwerth â modwl(modylau) rhaglen eisoes wedi'u mapio a'u cymeradwyo, a lle

disgwylir y bydd nifer o ymgeiswyr gyda'r dysgu tystysgrifedig hwn yn symud ymlaen at raglen Prifysgol (gan gynnwys rhaglenni mewn sefydliadau partner).

Caiff cynigion RPCL safonol (gan ddefnyddio Atodiad PL3e) ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partneriaeth cydweithredol eu cyflwyno i a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd (PPA). Yn dilyn cymeradwyaeth, bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r adrannau Prifysgol perthnasol a'r sefydliad partner o'r gymeradwyaeth. Adolygir RPCL safonol gan y PPA yn flynyddol, trwy Atodiad PL3f. Ar gyfer RPCL Safonol nad yw'n gysylltiedig â phartner, gall Sefydliadau ystyried a chymeradwyo'r cynigion.

## 1.11 Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau

Gallai credydau ar gyfer dysgu drwy brofiadau gael eu hennill o amryw ffynonellau, er enghraifft, yn y gweithle, o gyrsiau hyfforddiant y mae'r unigolyn wedi'u cwblhau ond sydd heb eu hardystio, drwy brofiad mewn gwaith gwirfoddol, neu drwy astudiaeth unigol. Ar ôl i gredydau gael eu dyfarnu, ni chânt eu gwahaniaethu yn ôl eu ffynhonnell. Gall dysgu drwy brofiadau arwain at gredyd penodol neu gyffredinol. Fel arfer, mae'n bosibl cydnabod hyd at ddwy ran o dair o raglen drwy ddyfarnu credyd academaidd ar gyfer dysgu blaenorol drwy brofiadau.

### 1.11.1 Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau ar gyfer Credyd Penodol

Dylid nodi bod Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau (RPEL) hefyd yn ffordd amgen o arddangos bod y myfyriwr wedi cyflawni'r deilliannau dysgu bwriedig modwl neu fodylau i gwblhau'r modwl neu fodylau yn y ffordd arferol.

Bydd Mentor Academaidd neu gyffelyb yn cael ei glustnodi i fyfyrwyr a bydd ef/hi yn eu tywys i baratoi portffolio o dystiolaeth sy'n arddangos y dysgu a gyflawnwyd yn erbyn y deilliannau dysgu a'r modylau y mae'r credyd yn cael ei hawlio.

Fel arfer bydd y portffolio'n cynnwys:

- CV manwl;
- disgrifiad swydd;
- Portffolio o brofiad dysgu sy'n arddangos lefel y dysgu yn erbyn y deilliannau dysgu perthnasol a modylau o fewn y rhaglen astudio;
- PL3b wedi'i gwblhau yn amlinellu manylion yr hawliad ac yn cynnwys datganiad cefnogol gan y Mentor Academaidd.

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, rhaid gwneud data personol a sensitif o fewn y portffolio tystiolaeth yn ddienw. Yn ôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae data personol yn wybodaeth sy'n gysylltiedig ag unigolyn adnabyddedig neu adnabyddadwy a allai gynnwys enw, cyfeiriad cartref, rhif adnabod neu gyfeiriad IP. Mae data categori arbennig (data sensitif) yn ddata personol sydd angen mwy o ddiogelwch am ei fod yn sensitif. Mae enghreifftiau o'r math hwn o ddata'n cynnwys hil, cefndir ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol, aelodaeth o undeb llafur, geneteg, biometreg, iechyd, a bywyd neu gyfeiriadedd rhywiol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn: https://ico.org.uk/

Rhaid i'r hawliad gael ei gefnogi gan lythyr o gefnogaeth gan gyflogwr neu unigolyn amgen addas. Rhaid i hwn fod ar bapur pennawd swyddogol y sefydliad dan sylw ac wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr awdur. Gall tystiolaeth a gyflwynwyd drwy e-bost fod yn dderbyniol os ydy'r e-bost wedi'i anfon gan yr awdur o enw parth swyddogol sefydliad yr awdur.

Ar ôl cwblhau'r portffolio'n llwyddiannus, gellir cyflwyno hawliadau i'r Bwrdd RPEL ac Achredu eu gwerthuso, gan nodi nifer a lefel y credydau, gan ddefnyddio ffurflen hawlio (Atodiad PL3b). Caiff penderfyniadau'r Bwrdd RPEL ac Achredu eu cyflwyno i Reolwyr Rhaglen, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch derbyn, ac i Wasanaethau'r Gofrestrfa er mwyn cofnodi'r credyd a gydnabyddir. Fel arfer mae ffi o £5 y credyd a ddyfernir yn daladwy.

Ni fydd marc ar gael ar gyfer y dysgu drwy brofiadau y ceisir cydnabyddiaeth amdano a phennir y lefel academaidd dros gyfnod llawn y broses ac ar adeg asesu.

Ar ôl cwblhau'r portffolio'n llwyddiannus, bydd y myfyriwr yn gallu dechrau eu hastudiaethau academaidd ar y rhaglen gytûn.

### 1.11.2 Rôl y Mentor Academaidd

Clustnodir Mentor Academaidd i bob myfyriwr i ddarparu cymorth ac arweiniad wrth baratoi eu hawliad am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol. Rôl y Mentor Academaidd fydd:

- cyflwyno'r myfyriwr i'r iaith a ddefnyddir ar gyfer diffinio deilliannau dysgu o fewn y sector addysg uwch;
- darparu cyngor ac arweiniad wrth anodi eu CV a swydd-ddisgrifiad i arddangos bod y dysgu wedi digwydd;
- cefnogi'r myfyrwyr wrth adnabod y theorïau a chysyniadau sy'n berthnasol i'w profiad, wrth gymhwyso theori i arfer ac wrth fapio theorïau;
- cefnogi'r myfyriwr wrth feintoli a chymhwyso swm a lefel eu hawliad credyd;
- cynnal trafodaeth broffesiynol â'r myfyriwr;
- darparu datganiad ar y ffurflen hawliad RPEL (PL3b) ar y portffolio o dystiolaeth.

### 1.11.3 Dysgu drwy Brofiadau yn arwain at Gredyd Cyffredinol

Yn hytrach na dyfarnu credyd penodol sy'n adlewyrchu dysgu mewn disgyblaeth pwnc penodol, yn yr achos hwn mae'r dyfarniad ar gyfer dysgu drwy brofiadau ar gyfer credyd cyffredinol yn eu maes proffesiynol. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr yn cydnabod yr ystod o ddysgu a gyflawnwyd gan yr unigolyn ac fe all gynnwys dysgu yn y gweithle, rhaglenni datblygu a hyfforddi staff, gwaith gwirfoddol ac astudiaeth anachrededig unigol.

Gellir hawlio credyd am fodylau nad ydynt werth mwy na chyfanswm o 40 credyd, neu dim mwy na thraean o'r dyfarniad a geisir, yn uniongyrchol i'r Bwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau (RPEL) ac Achredu mewn ymgynghoriad â Mentor Academaidd gan ddefnyddio'r ffurflen hawliadau (Atodiad PL3b). Bydd hawliadau am gredyd mewn perthynas â modylau sy'n werth mwy na chyfanswm o 40 credyd yn cael eu hystyried yn ôl y weithdrefn a ganlyn.

Er mwyn cael credyd ar gyfer dysgu drwy brofiadau mewn perthynas â modylau sy'n werth mwy na chyfanswm o 40 credyd, rhaid i fyfyrwyr gofrestru ar fodwl Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL). Mae ffi'n daladwy am ymgymryd â modwl RAL. Nid ystyrir bod tystiolaeth o'r profiad ei hun yn ddigonol ar gyfer dyfarnu credyd a rhaid ei chyflwyno mewn ffordd sy'n arddangos bod y dysgu wedi digwydd. Mae asesu'r modwl RAL yn cynnwys portffolio o dystiolaeth a thraethawd adfyfyriol sy'n gwerthuso'r dysgu a gyflawnwyd (gweler 1.12). Bydd Ymgynghorydd RAL yn cael ei glustnodi i fyfyrwyr a fydd yn rhoi iddynt lyfryn manwl a mynediad i ystod eang o adnoddau ar-lein i'w harwain trwy'r broses o gynhyrchu hawliad ar gyfer credyd. Ar

ôl cwblhau'r modwl RAL yn llwyddiannus a chadarnhau hyn mewn bwrdd arholi, gellir cyflwyno hawliadau i'r Bwrdd RPEL ac Achredu i'w gwerthuso, gan nodi nifer a lefel y credydau sy'n cael eu hawlio, gan ddefnyddio'r ffurflen hawlio (Atodiad PL3b). Caiff penderfyniadau'r Bwrdd RPEL ac Achredu eu cyflwyno i Reolwyr Rhaglen, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch derbyn, ac i Wasanaethau'r Gofrestrfa er mwyn cofnodi'r credyd a gydnabyddir. Fel arfer mae ffi o £5 y credyd a ddyfernir yn daladwy.

Ni fydd marc ar gael ar gyfer y dysgu drwy brofiadau y ceisir cydnabyddiaeth amdano a phennir y lefel academaidd dros gyfnod llawn y broses ac ar adeg asesu. Fodd bynnag, o fewn y Brifysgol, mae ei modwl Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL), y codir ffi amdano, yn fodwl 20 credyd y dyfernir marc amdano, ac a fydd yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo dyfarniad y rhaglen ar gyfer y Fframwaith Arfer Proffesiynol. Ceir rhagor o wybodaeth am fodwl RAL y Brifysgol gan y Cydlynydd Modwl RAL ar gyfer rhaglenni Arfer Proffesiynol.

### 1.12 Meysydd Dysgu

Gellir categoreiddio unrhyw ddysgu drwy brofiadau yn feysydd penodol a gelwir y rhain yn Feysydd Dysgu. Er enghraifft, gallai'r rhain ymwneud â:

- dysgu ac addysgu;
- cyflwyno gwasanaeth;
- rheoli;
- cynllunio a threfnu adnoddau;
- gwaith tîm a chymhelliant;
- blaengaredd, datrys problemau a gwneud penderfyniadau;
- dadansoddi, ymchwil ac adrodd.

Gall pob Maes Dysgu gymryd sawl ffurf, er enghraifft, gallai gwybodaeth a dealltwriaeth fod o ganlyniad i ddatblygiad staff, hyfforddiant neu astudiaeth bersonol yn y gweithle neu mewn mannau eraill. Gallai rheolaeth gynnwys un neu'n fwy o'r canlynol: rheoli'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau, adnoddau dynol, adnoddau corfforol, adnoddau ariannol neu reoli prosiectau.

Bydd Meysydd Dysgu ar amryw lefelau, er enghraifft, gallai rheoli Adnoddau Dynol amrywio o ddyletswyddau goruchwylio i reoli llinell adran neu uwch reolwyr.

### 1.13 Deilliannau Dysgu

Mae Deilliannau Dysgu'n adlewyrchu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau ymarferol a'r sgiliau trosglwyddadwy y mae'r myfyriwr wedi'u caffael o ganlyniad i'r dysgu drwy brofiadau a gyflawnwyd ym mhob Maes Dysgu. Bydd angen i fyfyrwyr adfyfyrio ar y Deilliannau Dysgu a darparu tystiolaeth fod y Deilliant Dysgu wedi'i gyflawni, er enghraifft, trwy ddynodi enghreifftiau o effaith y dysgu ar ymarfer y gweithle.

Bydd natur y Meysydd Dysgu'n amrywio'n sylweddol, er enghraifft, er mwyn darparu tystiolaeth yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau, gallai'r myfyriwr adfyfyrio ar dystiolaeth o reoli gofynion gwrthdrawiadol er mwyn cynnal ansawdd y gwasanaeth, gan ragweld newidiadau yn y galw a chynllunio yn unol â hynny, gan ragweld a diwygio ymarfer mewn ymateb i gymhellwyr allanol neu adfyfyrio'n systematig ar werthuso a diwygio perfformiad mewn ymateb i adborth y cwsmeriaid.

Yn yr un modd, er mwyn darparu tystiolaeth o ddadansoddi, ymchwil ac adrodd, gallai'r myfyriwr adfyfyrio ar dystiolaeth o ystyried nifer o ffyrdd posibl o fynd i'r afael â phroblem yn y gweithle, gan goladu gwybodaeth yn ymwneud â'r broblem gan randdeiliaid allweddol, datgymalu'r wybodaeth hon i mewn i'w rhannau cyfansoddol, ailosod y wybodaeth gan ddynodi gwahanol opsiynau i fynd i'r afael â'r broblem a pharatoi adroddiad yn crynhoi manteision ac anfanteision pob un.

## 1.14 Asesu Hawliadau ar gyfer Dysgu Drwy Brofiadau ar gyfer Credyd Cyffredinol dros 40 o Gredydau

Er mwyn gwneud hawliad am gredyd yn seiliedig ar ddysgu drwy brofiadau mewn perthynas â modylau sy'n werth mwy na 40 o gredydau i gyd, rhaid i'r myfyrwyr ddarparu tystiolaeth brofadwy i gefnogi eu hawliad, a chwblhau modwl Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL). Ffocws y modwl fydd i fyfyrwyr:

- ddynodi'r Meysydd Dysgu y ceisir cydnabyddiaeth amdanynt;
- cysylltu'r Meysydd Dysgu hynny â'r iaith a ddefnyddir i ddiffinio deilliannau dysgu yn y sector addysg uwch;
- mesur a chymhwyso cyfaint a lefel eu hawliad am gredydau.

Bydd angen i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth brofadwy sy'n nodi'n glir y profiad sydd wedi arwain at gyflawniad y Meysydd Dysgu, a gwerthuso ac adfyfyrio ar effaith y dysgu ar eu hymarfer gwaith. Dylid cynnal gwaith asesu'r modwl RAL ar y cyd ag aelodau staff o Dîm y Fframwaith Arfer Proffesiynol yn yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd.

Yn ogystal â'r portffolio tystiolaeth, asesir y modwl RAL drwy draethawd adfyfyriol lle bydd myfyrwyr yn adfyfyrio ar, yn dadansoddi ac yn gwerthuso'u profiad dysgu eu hunain yn ystod y broses RAL. Bydd lefel credydau modwl RAL yn dibynnu ar y graddau y gall myfyrwyr ddangos gallu i werthuso a syntheseiddio'n feirniadol eu profiad dysgu, a dynodi cyfleoedd a datblygu strategaethau i gryfhau ei effaith yn y gweithle, er enghraifft trwy ddiwygio arfer presennol. Bydd cyfaint y credydau i'w dyfarnu'n adlewyrchu egwyddorion y Fframwaith Credydau a Chymwysterau gyda 10 credyd yn adlewyrchu 100 o oriau tybiannol o ddysgu drwy brofiadau.

Bydd y portffolio fel arfer yn cynnwys:

- CV manwl;
- disgrifiad swydd;
- portffolio o brofiad dysgu;
- PL3b wedi'i gwblhau yn amlinellu manylion yr hawliad ac yn cynnwys datganiad ategol gan yr Ymgynghorydd RAL.

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, rhaid gwneud data personol a sensitif o fewn y portffolio tystiolaeth yn ddienw. Yn ôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae data personol yn wybodaeth sy'n gysylltiedig ag unigolyn adnabyddedig neu adnabyddadwy a allai gynnwys enw, cyfeiriad cartref, rhif adnabod neu gyfeiriad IP. Mae data categori arbennig (data sensitif) yn ddata personol sydd angen mwy o ddiogelwch am ei fod yn sensitif. Mae enghreifftiau o'r math hwn o ddata'n cynnwys hil, cefndir ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol, aelodaeth o undeb llafur, geneteg, biometreg, iechyd, a bywyd neu gyfeiriadedd rhywiol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn: https://ico.org.uk/

Rhaid i'r hawliad gael ei gefnogi gan lythyr o gefnogaeth gan gyflogwr neu unigolyn amgen addas. Rhaid i hwn fod ar bapur pennawd swyddogol y sefydliad dan sylw ac wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr awdur. Gall tystiolaeth a gyflwynwyd drwy e-bost fod

yn dderbyniol os ydy'r e-bost wedi'i anfon gan yr awdur o enw parth swyddogol sefydliad yr awdur.

Bydd angen i'r myfyriwr ddangos yn union le mae'r Meysydd Dysgu wedi digwydd. Ni waeth beth yw lefel a chyfaint yr hawliad credydau, ni ddyfernir unrhyw gredydau na marciau ar gyfer cydrannau'r portffolio. Fodd bynnag, dyfernir marc i'r traethawd adfyfyriol mewn modwl RAL (gwerth 20 credyd) a fydd yn cael ei ddefnyddio wrth ddosbarthu dyfarniad y rhaglen.

Bydd y disgrifiadau lefel canlynol yn cael eu defnyddio i ddynodi'r lefel briodol:

**Lefel 4**

1. Cyfrifoldeb am gamau gweithredu a'u canlyniadau, gan gynnwys effeithiau ehangach.
2. Meddwl trwy gamau gweithredu a'u dewis.
3. Ymdopi'n effeithiol gydag ystod o sefyllfaoedd a phroblemau anghyfarwydd.
4. Cydnabod goblygiadau gwahanol faterion a chamau gweithredu.
5. Dynodi a gwerthuso effeithiau ymarferol ac effaith paramedrau gweithredu.
6. Gweithredu ar ddealltwriaeth o berthnasoedd a chyferbyniadau rhwng egwyddorion a syniadau.
7. Ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i ddynodi'r berthynas a gwneud barnau deallus.
8. Ail-ddehongli a chyfuno gwybodaeth i ddatblygu syniadau a dewis camau gweithredu neu ddatblygu ffyrdd ymlaen.
9. Dylunio ymchwiliadau i ddarparu gwybodaeth newydd ac effeithio ar arfer, gan gynnwys trwy ymchwiliad ymarferol.
10. Gwerthuso priodoldeb gwahanol ymagweddau a'u heffeithiau.
11. Llunio'u syniadau eu hunain a datblygu ymatebion arloesol.
12. Datblygu atebion newydd i broblemau.

**Lefel 5**

1. Cyfrifoldeb ar draws maes eang yn hytrach nag ar gyfer tasgau unigol, gan gynnwys ar gyfer trafod amcanion a chanlyniadau ac ar gyfer eu heffeithiau ehangach.
2. Datblygu meddwl trwy gamau gweithredu.
3. Ymdopi'n effeithiol gydag ystod o sefyllfaoedd a phroblemau anghyfarwydd.
4. Deall goblygiadau gwahanol faterion a chamau gweithredu.
5. Dynodi dilemâu a gwerthfawrogi gwrthdrawiadau.
6. Dynodi a gwerthuso effeithiau ymarferol ac effaith paramedrau ac egwyddorion gweithredu.
7. Tynnu oddi ar sail wybodaeth bersonol eang neu ffurfiol a set o fodelau meddyliol sy'n ymwneud â'r maes ymarfer.
8. Datblygu theorïau, syniadau a modelau ymarferol sy'n cynnwys canfod ffyrdd ymlaen o wynebu gwrthdrawiadau a bylchau mewn theorïau.
9. Ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i ddynodi perthnasoedd a phatrymau a gwneud penderfyniadau deallus.
10. Dylunio ymchwil ymarferol i ddarparu gwybodaeth newydd ac effeithio ar feysydd ymarfer.
11. Gwerthuso effeithiau dewisiadau a chamau gweithredu, gan gynnwys effeithiau y tu allan i'r cyd-destun di-oed.
12. Cymryd dulliau arloesol o fynd i'r afael â materion.
13. Datblygu atebion newydd i setiau o broblemau.

**Lefel 6**

1. Cyfrifoldeb ar draws maes eang sy'n cynnwys ar gyfer cynllunio, caffael adnoddau ac ansawdd yn ogystal ag ar gyfer canlyniadau a'u heffeithiau di-oed ac ehangach.
2. Datblygu meddwl trwy gamau gweithredu.
3. Gweithio'n effeithiol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.
4. Deall goblygiadau gwahanol faterion a chamau gweithredu.
5. Deall a rheoli dilemâu a gwerthfawrogi gwrthdrawiadau.
6. Dynodi'r rhyngberthnasoedd rhwng systemau ehangach lle mae'r maes ymarfer.
7. Tynnu oddi ar sail wybodaeth bersonol neu ffurfiol eang a set o fodelau meddyliol sy'n ymwneud â'r maes ymarfer.
8. Datblygu a gwerthuso ystod o theorïau, syniadau a modelau ymarferol, gan gynnwys canfod ffyrdd ymlaen mewn sefyllfaoedd problematig.

9. Ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i ddynodi perthnasoedd a phatrymau a gwneud penderfyniadau deallus.

10. Dylunio ymchwil ymarferol, methodolegol gadarn i ddarparu gwybodaeth newydd ac effeithio ar feysydd ymarfer.

11. Gwerthuso effaith wirioneddol a photensial theorïau a chamau gweithredu, gan gynnwys effeithiau y tu allan i'r cyd-destun di-oed.

12. Cymryd dulliau arloesol mewn sefyllfaoedd cymhleth.

13. Datblygu ymagweddau newydd i systemau.

**Lefel 7**

1. Cyfrifoldeb llawn am ddulliau, camau gweithredu ac effeithiau di-oed ac ehangach sy'n ymestyn y tu hwn i'r maes ymarfer di-oed.

2. Datblygu meddwl trwy gamau gweithredu sy'n ystyried materion y tu hwnt i'r maes ymarfer di-oed.

3. Gweithio'n effeithiol mewn cyd-destunau problematig, sy'n cynnwys gwrthdrawiadau gwerth ac ansicrwydd sy'n ymestyn y tu hwn i'r maes ymarfer di-oed.

4. Deall goblygiadau amgen gwahanol faterion a chamau gweithredu.

5. Deall a rheoli dilemâu a gwrthdrawiadau o ran gwerth

6. Deall a gweithredu ar y rhyngberthnasoedd rhwng y systemau ehangach lle mae'r maes ymarfer wedi'i leoli.

7. Defnyddio meistrolaeth ar wybodaeth sy'n ymwneud â chyd-destun ehangach y maes ymarfer ac sy'n ymestyn iddo.

8. Datblygu a gwerthuso'n feirniadol ystod o theorïau, syniadau a modelau ymarferol, gan gynnwys goresgyn dilemâu a chanfod ffyrdd ymlaen mewn sefyllfaoedd problematig.

9. Ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i ddynodi'r perthnasoedd rhwng systemau ehangach lle mae'r maes ymarfer.

10. Ymgymryd ag ymchwiliad sylweddol i fynd i'r afael â meysydd ymarfer sylweddol, gan ddefnyddio methodoleg, sy'n gyson â'u dibenion a'u cyd-destunau.

11. Gwerthuso'n feirniadol ffactorau meddwl, gweithredu a strwythurol sy'n gweithredu yn y maes ymarfer, gan gynnwys tybiaethau gwaelodol, a dynodi goblygiadau i'r systemau ehangach y tu hwnt i'r maes ymarfer.

12. Datblygu dulliau arloesol o symud ymlaen mewn sefyllfaoedd cymhleth ac anrhagweladwy.

13. Datblygu atebion newydd i systemau.

## 1.15 Rôl yr Ymgynghorydd Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL)

Bydd Ymgynghorydd yn cael ei glustnodi i bob myfyriwr er mwyn darparu cefnogaeth ac arweiniad wrth baratoi eu hawliad am gydnabod dysgu drwy brofiadau a chwblhau modwl cydnabod ac achredu dysgu. Rôl yr Ymgynghorydd fydd:

- cyflwyno'r myfyriwr i'r iaith a ddefnyddir i ddiffinio deilliannau dysgu yn y sector addysg uwch;
- rhoi cyngor ac arweiniad wrth ddynodi Meysydd Dysgu posibl y myfyrwyr;
- rhoi cyngor ac arweiniad wrth anodi eu CV a'u disgrifiad swydd i ddangos bod y dysgu wedi digwydd;
- cefnogi'r myfyrwyr i ddynodi'r theorïau a'r cysyniadau sy'n berthnasol i'w profiad, wrth gysylltu theori ag ymarfer ac wrth fapio theorïau, cysyniadau ac ymarfer i'w Meysydd Dysgu;
- cefnogi'r myfyrwyr i fesur a chymhwyso cyfaint a lefel eu hawliad am gredydau;
- rhoi cymorth ac arweiniad wrth ysgrifennu traethawd adfyfyriol ar gyfer y modwl RAL;
- cynnal trafodaethau proffesiynol â'r myfyriwr yn ystod tiwtorialau drwy gydol ei gyfnod astudio;
- darparu datganiad ar y ffurflen hawlio RPEL (PL3b) ar y portffolio tystiolaeth a'r traethawd adfyfyriol sy'n gwerthuso'r dysgu sydd wedi'i gyflawni.

## 1.16 Bwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau (RPEL) ac Achredu

Mae'r Bwrdd hwn yn gyfrifol am ystyried hawliadau a gyflwynwyd gan ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol i gydnabod eu dysgu drwy brofiadau. Gallai'r Bwrdd ddyfarnu credydau ar sail yr hawliadau hynny a gallai Tiwtoriaid Derbyn ddefnyddio'r credydau hyn wrth ystyried ceisiadau myfyrwyr i gael eu derbyn i raglen astudio neu i gael safle uwch ar gyfer rhaglen astudio.

Bydd y graddau y bydd achosion unigol yn amrywio yn ei gwneud hi'n amhosibl bod yn gwbl ragnodol o ran y rheolau ar gyfer dyfarnu credydau ar gyfer dysgu drwy brofiadau. Fodd bynnag, mae'n bosibl datblygu normau derbyniol i ddyfarnu credyd, ar sail y gynsail sylfaenol o anelu at gyflawni cysondeb a chyfiawnder i'r myfyriwr wrth gynnal ansawdd a safonau'r dyfarniadau. Am y rhesymau hyn, bydd Mentor Academaidd neu Ymgynghorydd RAL yn asesu'r hawliad i ddechrau ac yn gwneud argymhelliad am faint a lefel y credydau i'w dyfarnu. Ar gyfer ceisiadau o sefydliadau partner Strwythurol neu Gydweithredol y Brifysgol bydd angen argymelliadau ychwanegol gan aelod o staff o Dîm y Fframwaith Arfer Proffesiynol yn yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd a'r Arweinydd Tîm Partneriaeth perthnasol.

Bydd y Bwrdd RPEL ac Achredu yn cwrdd i werthuso pob hawliad ac yn gwneud penderfyniad terfynol ar gyfaint a lefel y credydau i'w dyfarnu.

Mewn rhai achosion, bydd angen gosod terfyn amser ar rai elfennau o'r credydau y gellir eu dyfarnu ar gyfer dysgu drwy brofiadau, er enghraifft mewn meysydd newid technolegol cyflym ac arwyddocaol.

**Cylch Gorchwyl**

Mae'r Bwrdd hwn yn gyfrifol am ystyried hawliadau a gyflwynir gan ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol i gydnabod dysgu blaenorol drwy brofiadau, fel yr amlinellir ym Mholisi RPL y Brifysgol, ac am weithredu fel bwrdd arholi ar gyfer darpariaeth achrededig, fel yr amlinellir ym Mhennod 10 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Gadeirydd a fydd yn cael ei benodi gan y Pwyllgor Safonau Academaidd ac, fel arfer fe fydd yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn academaidd, ac yn adrodd i'r Pwyllgor Safonau Academaidd.

**RPEL**

(1) Gweithredu'r Polisi RPL a gwerthuso hawliadau RPEL a gyflwynir i'r pwyllgor a gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch maint a lefel y credyd i'w ddyfarnu.

(2) Wrth asesu hawliadau RPEL, bydd y Bwrdd yn ystyried y canlynol:
- i. p'un a yw'r datganiad a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn ddilys a dibynadwy ac yn perthnasu i ymdrechion a chyraeddiadau'r ymgeisydd ei hun;
- ii. p'un a yw unrhyw ddogfennau ategol yn ddigonol i allu gwneud argymhelliad o gyrhaeddiad o'r Meysydd Dysgu y gwneir cais am gredyd amdanynt;
- iii. p'un a yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn ddigonol i ddangos cyrhaeddiad o'r Meysydd Dysgu y gwneir y cais am gredyd amdanynt;
- iv. p'un a ddylid gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno dogfennaeth bellach i gefnogi ei hawliad, neu a ddylid gofyn iddo/iddi adolygu ac ailgyflwyno ei ffurflen gais;
- v. p'un a yw unrhyw amodau'n berthnasol (er enghraifft, terfyn amser ar gyfer symud ymlaen i'r lefel nesaf);
- vi. p'un a yw'r penderfyniad yn unol ag unrhyw gynsail a osodwyd;
- vii. bod integredd safon academaidd y dyfarniad yn cael ei gynnal.

(3) Gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Safonau Academaidd ar unrhyw faterion mewn perthynas â Chredyd a Statws Uwch ar sail dysgu drwy brofiadau;

**Achredu**

(4) Craffu sampl o asesiadau dysgwyr, cymeradwyo lefel a gwerth credyd gwaith a gwblhawyd gan y dysgwyr ar ddarpariaeth achrededig, a gofyn am dystysgrifau neu drawsgrifiadau i'w cyhoeddi gan y Gofrestrfa fel y bo'n berthnasol;

(5) Gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Safonau Academaidd ar brosesau asesu sy'n gysylltiedig ag achredu, os yw hynny'n berthnasol.

**Aelodaeth**
Bydd y Cadeirydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau Academaidd (ar sail tair blynedd treigl)
Rheolwr Rhaglen ar gyfer y Fframwaith Arfer Proffesiynol
Cydlynydd Modwl RAL
Cynrychiolydd/wyr Tiwtor Achredu'r Athrofa
Un aelod o staff o bob Athrofa
Un cynrychiolydd o'r Uned Brentisiaethau
Aelod allanol
Mentoriaid Academaidd
Ymgynghorwyr RAL

## 1.17 Hawliadau twyllodrus

Os oes tystiolaeth bod myfyriwr wedi cyflwyno dogfennaeth mewn modd twyllodrus, i gefnogi ei gais/chais, byddai'r mater yn cael ei ystyried yn ymgais i gael mantais annheg a dylid ymdrin â hyn dan y Polisi Camymddwyn Anacademaidd neu'r Polisi Derbyn fel y bo'n briodol.

## 1.18 Apeliadau

Gellir ond cyflwyno apêl os ydy'r myfyriwr yn credu bod anghysondeb perthnasol o ran prosesu ei gais/chais.

Dylai ymgeiswyr/myfyrwyr sy'n dymuno apelio mewn perthynas â dyfarnu RPCL ysgrifennu at y Rheolwr Derbyn, neu'r Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol fel y bo'n briodol, a darparu manylion am sail eu hapêl.

Dylai ymgeiswyr/myfyrwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd RPEL ac Achredu ddilyn y broses a amlinellir yn y Polisi Apeliadau Academaidd. Yn unol â'r Polisi Apeliadau Academaidd, ni fydd hawl apelio yn erbyn y feirniadaeth academaidd.

## 1.19 Goblygiadau Adnoddau

| Goblygiad | Manylion |
|---|---|
| Cyllid | *Ni ragwelir dim goblygiadau ariannol.* |
| Staff | *Ni ragwelir adnoddau ychwanegol.* |
| Asedau | *Ni ddynodwyd unrhyw gostau asedau.* |
| Partneriaid | *Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio'r polisi hwn ar draws y grŵp sector deuol.* |
| Cyfnodau amser | *Ar ôl derbyn cymeradwyaeth, gweithredir y polisi ar unwaith. Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol yn rhan o'r adolygiad o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd a'i bolisïau cysylltiedig.* |
| Arweinyddiaeth | *Pro Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am Brofiad Academaidd* |

## 1.20 Asesu Effaith

| Goblygiad | Ystyriwyd yr Effaith (Do/Naddo) | Yr Effaith a Nodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | | *Mae'r polisi'n cydymffurfio â'r:*<br>• *Cod Ansawdd ASA y DU*<br>• *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch* |
| Cyfraniad at y Cynllun Strategol | | *Mae'r polisi'n alinio â'r gwerthoedd a fynegwyd yn y Cynllun Strategol.* |
| Dadansoddi Risg | | *Mae'r polisi'n rheoli'r risg cydnabod dysgu tystysgrifedig a dysgu trwy brofiad.* |
| Cydraddoldeb | | *Bydd y polisi'n sicrhau y cedwir at ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.* |
| Y Gymraeg | | *Mae'r polisi'n cyd-fynd â'r egwyddorion a fynegir yn Neddf yr Iaith Gymraeg.* |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | | *Dim wedi'u dynodi.* |
| Cyfathrebu/ Cyfryngau / Marchnata | | *Caiff y polisi hwn ei groes-gyfeirio ym Mhennod 11 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd a chaiff ei gyhoeddi wrth ochr y bennod berthnasol ar dudalennau gwe'r Swyddfa Academaidd.* |

Awdur(on) y Polisi:

Teleri James Teitl Swydd: Pennaeth Ansawdd

**1.21 Rheoli fersiynau'r ddogfen**

| Fersiwn Rhif: | Rheswm am y newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Polisi Drafft i ASC | TJ | 24.02.2021 |
| 0.2 | Polisi Cymeradwy | TJ | 01.03.2021 |
| 0.3 | Diwygio'r Bwrdd RPEL i fod yn Fwrdd RPEL ac Achredu | MP/TJ | 01.08.2021 |
| 0.4 | Eglurhad pellach ynglŷn â'r canllawiau ar: ddiogelu data, ceisiadau gan fyfyrwyr mewn sefydliadau partner, dogfennaeth ar gyfer portffolios a microgymwysterau. | MP/TJ/AG | 12.08.2022 |
| 0.5 | Diwygiwyd adrannau 1.6 ac 1.7 er mwyn eglurdeb a chysondeb â'r LIAA | TJ | 03.03.2023 |
| 0.6 | Diweddarwyd rolau'r Mentor Academaidd a'r Ymgynghorydd RAL i gynnwys trafodaethau proffesiynol â'r myfyriwr | AG | 16.08.2023 |
| 0.7 | Adran 1.2 wedi'i diweddaru i gyd-fynd â Pennod 6 y LIAA<br>Diweddarwyd Adran 1.16 i alinio Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Bwrdd RPEL ac Achredu gyda newidiadau i weithdrefnau achredu a nodir ym Mhennod 10 y LIAA | TJ | 12.12.2024 (Cymeradwywyd gan Gadeirydd y PSA 17.12.2024) |
| 0.8 | Mân ddiweddariadau i ddiweddaru lleoliad y ffurflenni cyhoeddedig a newidiadau mewn cyfrifoldebau staffio | TJ, AG, SMc | 16.09.2025 |

(dylai hyn gynnwys taith y polisi trwy'r strwythur Pwyllgor).

Statws cyfredol y Polisi: wedi'i gymeradwyo*

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: AB ac AU*

**Dyddiad ei gadarnhau:** 24 / 02 / 2021**

**Dyddiad y daw i rym:** 24 / 02 / 2021**

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 01 / 05 / 2026**

**I'w gyhoeddi:** ar wefan Y Drindod Dewi Sant / ~~MyDay / Ddim i'w gyhoeddi~~.

*Dileer fel y bo'n briodol
** ychwaneger pan fydd ar gael

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David